Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 18. Rhif 1.] IONAWR, 1918. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Oddiar y Twr.

Ty Shon Cwilt.

O Faes y Frwydr.—Parch. D. Cellan Evans

Y Ffenestr a'r Cerdyn.—Anthropos.

Priodasau.

Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

R.G.D., Blaenrhondda; J.R.T., Pontshan; D. & E.T., Brynmeddyg; J.T., Rhymney; Mrs. D., Dolbante; J.T., Tibberton; E.C.T., Caerdydd; Mrs. R., Ysguborfawr; J.D., Ciliau Aeron; Mrs. E., Esgerwenfawr; Dr. T.E., Abertawe; J.R., Maesymeillion; Parch. W.J.P., Newton; D.D., Lampeter; Mrs. J., Fronfelen; Dr. L., Llanon; D.D., Gorseinon; J.D.D., Cwmgwrach; J.H.E., N.C.Emlyn; R.T., Laugharne; D.T., Liverpool; E.J., Abergorlech; S.D., Coedpark; D.J.T., Cribyn; D.J., Abergorlech; D.D., Cross Hands; J.G.J., Cwrtnewydd; Mrs. D., Llansawel; Miss. J., Llandilo; J.L., Wrexham; T.O., Llanelly; D.J., Clydach Vale; M.L., Llandyssul; D.M.D., Aberaman; Miss D., Lampeter; G.J., Pencarreg; T.J.J., Bangor; L.J., Bedlinog; D.D., Gwardafolog; Parch. E.G.E., Bootle; Miss J., Pontshan; J.D., Ciliau Aeron; J.M., Blaengwynfi; D.E.B., N.C.Emlyn; Mrs. R., Penderyn; Dr. D.J.D., Aberystwyth; Miss L., Dowlais; M.J., Port Talbot; R.Ll., Merthyr; D.J., Llanwnen; J.J., Aberaman; Mrs. E., Aberdar; Mrs. J., Maesllyn; M.R., Pentregwenlais; H.T., Whitland; D.D., Pantydefaid; Mrs. W., Cwmtegryd; J.D., Llanwnen; D.J.G., Ferndale; D.D., Coedpenmaen; Mrs. J., Llandilo.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1918. [CYF. XVIII. RHIF 1.

ODDIAR Y TWR.

YMAE testynau pregethau a phregethau, fel rheol, yn dilyn rhyw un cwrs neu linell neilltuol; a pherthyn iddynt, mewn canlyniad, ryw fath ar undonedd a ddeffry, mewn aml i fynwes, gryn lawer o ragfarn yn eu herbyn. Fe gofia rhai o'n darllenwyr, yn ddiau, am bregeth draddodwyd yn ein capelau yng Ngheredigion ychydig flynyddau yn ol, gan un o enwogion ein pwlpud, ar y testyn hynod—"A oedd Iesu Grist yn Gristion?" Tynnodd hon gryn sylw, a bu yn destyn siarad cyffredin iawn—Dyma destyn dipyn allan o'r cwrs cyffredin—"Cristionogaeth yr Agnostic"—pregeth a draddodwyd tua dau fis yn ol gan Ficer Leeds; yr hwn, mae'n debyg, sydd wedi creu tipyn o gyffro yng ngwersylloedd Iawnffyddiaeth.

* * *

Nid yw hyn yn beth i synnu o'i blegid. Bu adeg pan na freuddwydiai neb am gysylltu'r geiriau "Cristionogaeth" ac "Agnostic" fel hyn. Yr Agnostic yn Gristion! Y fath wrthuni! Beth yw Agnostic? Un a broffesa ddiffyg gwybodaeth ar bynciau cred—Duw, dyn a'i dynged, ac yn y blaen. Oes Duw? "Ni wn i," etyb yr Agnostic. Ydyw dyn yn anfarwol? Yr un yw'r ateb. Yr un yw'r ateb drwy holl gwrs pynciau cred. Y mae hyn i'r Cristion iawnffyddiog, ym mron bod yn gyfystyr ag anffyddiaeth. Pa synwyr, felly, all fod mewn cysylltu Cristionogaeth ac Agnostic a'u gilydd fel hyn—dweyd y gall yr Agnostic fod yn Gristion? Ar un olwg, mae'r peth yn afresymol, yn wrthun i'r eithaf.

* * *

Yr ydym, fodd bynnag, wedi teithio pellter mawr, ac wedi ei deithio yn gyflym, yn ystod y blynyddau diweddaf hyn; a thybiaf y ceid, pe chwilid yn fanwl, nifer liosog o Gristionogion a gydsyniant a honiad Ficer Leeds. Dyma'r safle gymer y Ficer: dywed fod tri pheth, yn ol y farn gyffredin, yn eisiau cyn bod yn Gristion—(1)

Ymwrthod â phob drwg; (2) Credu'r ffydd Gristionogol; ac (3) Ymdrechu byw bywyd da. Beth am yr Agnostic a ddaw i fyny â'r amod gyntaf a'r trydydd, ond a fetha ddod i fyny a'r ail? A all hwn fod yn Gristion? Gall, yn ol y Ficer; i'r hyn y dwedaf finnau Amen. Beth am y Cristion—y mae llawer o honynt a ddaw i fyny a'r ail amod, ond a fetha neu na ymdrecha ddod i fyny a'r cyntaf a'r trydydd. Ydyw hwn yn Gristion? Fe'i gelwir yn Gristion yn gyffredin; ond nid yw felly mewn gwirionedd. Ydyw hi yn iawn i ganiatau i'r olaf fod mewn cymundeb ag Eglwys Gristionogol, a gwrthod hynny i'r Agnostic a ddaw i fyny â dwy o'r tair amod? Nac ydyw, medd y Ficer. "Nid yw'r dyn a chwilia am ateb i broblemau bywyd, yr hwn a edmyga rinweddau ac a ymdrecha fyw yn rhinweddol, yn elyn i'r Eglwys Gristionogol." Dyna siarad synhwyrol, onite? Paham, ynte, na chaniateir i un nad yw "yn elyn i'r Eglwys Gristionogol" i fod mewn cymundeb â hi? Fe ddylid caniatau iddo, medd y Ficer; i bob Agnostic o'r fath a ddesgrifir uchod fe estynnai efe ddeheulaw cymdeithas.

* * *

Y gwir mewn perthynas i'r mater hwn yw—y daw yn fwy-fwy amlwg inni ein bod i gyd yn Agnosticiaid i ryw fesur—hynny yw, nid ydym yn gwybod, eithr fe gredwn. Mater o ffydd, ac nid o wybodaeth, felly, yw pynciau mawr ein cred. Pa synwyr sydd, felly, mewn cauad y drws yn erbyn y rhai na feddant oleuni clir ffydd ar y pynciau hyn, os y deuant i fyny a'r amodau hanfodol ereill—ymwrthod â'r drwg, a gwneud y da? Nid oes un synwyr, ac eto, dyna wneir gan yr oll o'r Eglwysi Cristionogol—cauad y drws yn eu herbyn.

* * *

Dwg hyn i'm meddwl y gofyniad—ydyw crediniaeth yn hanfodol i fywyd Cristionogol? Nid a ydyw yn fanteisiol neu gynhorthwyol, ond a ydyw yn hanfodol, sylwer, yw'r gofyniad. Ydyw, medd yr Eglwysi Cristionogol ym mron yn unllais. Os felly, pam nad allai'r eglwysi gytuno parthed beth yw'r gred iawn? Safle anfoddhaol yw eiddo pleidwyr crediniaeth fel peth hanfodol i fywyd Cristionogol; a safle y bydd raid i'r eglwysi ymwrthod â hi. Nid wyf yn bychanu gwerth crediniaeth; eithr am grediniaeth mewn math neilltuol ar syniadau y siaradaf yn awr. Y mae'r olwg hon ar grediniaeth yn sicr o golli ei gafael ar y meddwl dynol fel y tywynna goleuni cliriach a gwybodaeth eangach arno.

* * *

Mewn perthynas i'r mater uchod, diddorol i mi oedd darllen, ychydig amser yn ol, anerchiad Prif Athraw Ysgol Harrow (Dr. Ford) ar "Grefydd yn ein Hysgolion Cyhoeddus." Dwedai fod crefydd bersonol wirioneddol lawer oryfach nag y bu erioed o'r blaen yn yr ysgolion hyn. Blinid y bechgyn gan syniadau henafol y Llyfr Gweddi Gyffredin, creadigaeth y byd mewn chwe' diwrnod, yr haul

yn aros wrth arch Josua, y morfil yn llyncu Jonah, a'r cyffelyb; eithr meddiennid hwy gan dueddfrydau cariadus, edmygent anhunangarwch, gostyngeiddrwydd a chymwynasgarwch, "yr hyn," meddai'r Prif Athraw, "a ddengys fod gwir grefydd yn eiddo iddynt."

* * *

Mae'm cydymdeimlad i yn llwyr gyda'r bechgyn. Pa synwyr sydd mewn parhau i yngan mewn addoliad cyhoeddus syniadau ag y mae gwybodaeth fwy perffaith, rheswm mwy diwylliedig, a theimladau mwy cwrteithiedig, y genhedlaeth bresennol yn gwrthdystio yn eu herbyn? A pha synwyr sydd mewn gofyn i neb i roi coel i ystoriau a gawsant eu bodolaeth ym mhell yn ol yng ngwyll y gorffennol—o'r rhai y mae'r Hen Destament yn llawn? Nid oes un synwyr. Fy marn i ydyw—fod Agnosticiaeth ostyngedig a didwyll yn fwy boddhaol safle na hon y glŷn yr eglwysi mor ystyfnig wrthi.

* * *

Y mae (yn y man lleiaf) ddwy fil a hanner o flynyddau er y dwedodd un fod "y nefoedd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef." Yn ei babandod yr oedd gwybodaeth dyn am y cyfanfyd yn yr adeg bellennig honno. Beth ddwedai'r awdur pe'n byw heddyw ddechreu'r ugeinfed ganrif? Gwir yw y byddai yn anhawdd iddo roddi o'i deimladau fynegiad geiriol mwy desgrifiadol na'r uchod; oblegid cyfyng yw gallu dyn i roi mynegiad cyflawn o deimladau dyfnaf ei fynwes—yn enwedig o'r teimladau gyffroir yn ei fynwes gan y meddwl am fawredd y bydoedd wybrennol. Ie, bydoedd wybrennol; oblegid dyna beth ydynt—bydoedd, na wŷr neb eu nifer, a phellter y rhai oddiwrthym ni ac oddiwrth eu gilydd a drecha bob ymgais ddynol i'w ddirnad.

* * *

Pa faint yw nifer y bydoedd wybrennol hyn? Beth am eangder y cyfanfyd? Ni ellir rhoi ateb i un o'r gofyniadau hyn; eithr y mae rhai o'r ffigyrau roddir inni gan seryddwyr yn ddigon i beri arswyd i'r meddwl a'r galon wan. Beth yw pellter y ddaear oddiwrth yr haul? Gŵyr pob plentyn sydd wedi gorffen ei gwrs ysgol beth yw'r ateb—oddeutu pedwar ugain a deg o filiynau o filltiroedd. Dyry Syr Ray Lancaster filiwn yn llai (89,000,000). Mae'n hawddach ysgrifennu neu ddweyd y ffigyrau hyn na dirnad beth a olygant. Y mae miliwn ym mron bod uwchlaw ein dirnadaeth ni—er ein bod wedi dod yn gyfarwydd iawn a'r miliynau yn ystod y tair blynedd diweddaf. Ond—pedwar ugain a deg (neu naw) o filiynau! Y mae'r ymgais i amgyffred ystyr y ffigyrau hyn ym mron bod yn ddigon i barlysu'r dychymyg. Ac eto nid yw'r pellter hwn ond megis taith diwrnod o'i gymharu â phellter sêr neu heuliau ereill y cyfanfyd. Dywed yr un awdurdod uchod, er enghraifft, bod pellter yr Alpha-Centauri (yr agosaf atom o'r "sêr sefydlog") yn ddim llai nag un biliwn ar bymtheg (16,000,000,000,000) o filltiroedd. Nid yw hon, sylwer, ond yr agosaf atom o'r "sêr sefydlog" ar ol ein haul

ni. Os yw'r agosaf cyn belled a hyn oddiwrthym, beth am bellter yr heuliau ereill, tu hwnt i'r Alpha-Centauri? Ni ddilynaf y mater hwn ym mhellach na dweyd y bernir fod pellter y pellaf o'r rhai sydd weladwy oddeutu 55,000,000,000,000 o filltiroedd.

* * *

Beth am nifer y "sêr sefydlog?" Yn ol Syr Ray Lancaster, eto, y mae oddeutu 8,000 o honynt yn weladwy i'r llygad noeth. Trwy help yr yspienddrych cryfaf fe ddaw oddeutu can miliwn i'r golwg. Ym mhellach, trwy help heuldebaeth (*photography*), ychwanegir amryw filiynau at y nifer. Yna, eto, yn ol paragraff a ymddangosodd yn y papyrau yn ddiweddar, y mae seryddwyr yr Unol Daleithau wedi newydd orffen gosod yn ei le offeryn—cyfuniad o ddrych (*mirror*) ac yspienddrych—trwy gyfrwng yr hwn, fel y bernir, y dygir i'r golwg oddeutu 100,000,000 o heuliau nas gwelwyd mo honynt erioed o'r blaen. Y mae'r offeryn uchod yn un o ryfeddodau diweddaf gwyddor. Pwysa'r cyntaf oddeutu pedair tunnell, a'r ail gàn tunnell, a buwyd oddeutu deuddeg mlynedd yn ei adeiladu.

* * *

Pair y ffigyrau hyn i'n cyfundrefnau duwinyddol dynol ni i ymddangos yn fach iawn—ie, yn blentynaidd, lawer o honynt. Pwy faidd feio'r Agnostic am fod o hono yn Agnostic ar ol eu darllen; Y gwir yw—yr ydym i gyd yn Agnosticiaid. Nid ydym yn gwybod fawr iawn; eithr hwyrfrydig ydym i gydnabod hynny. Da iawn fyddai inni ddysgu'r wers ddysgwyd gan Iefan Tyclai—un o gymeriadau hanes bywyd Shencyn Penhydd. Mewn ateb i ymholiad o eiddo Jones Llangan, dwedodd Iefan: "Yr wyf wedi dysgu un wers, sef, nad wyf yn gwybod dim." "Wel, wel," meddai Jones mewn ateb, "yr wyt ti, Iefan bach, yn y dosbarth blaenaf yn ysgol Iesu Grist." Y mae eisiau dysgu'r wers hon arnom i gyd.

* * *

Beth ddwedaf, ynte? Yng ngwyneb y mawredd na all un iaith ddynol ei ddesgrifio na'r un dychymyg dynol ei amgyffred, fe ddymunwn i allu cadw gafael dŷn yn fy ffydd—ie, ffydd, nid gwybodaeth—yn y Daioni Perffaith sydd yn a thrwy'r oll; neu, i'r gofyniad beth yw'r esboniad ar y cyfanfyd rhyfeddol, fy unig ateb i yw—Duw. Ni wn i fawr am dano. Gwir yw yr hyn ddywed Esaiah, sef, mai "Duw yn ymguddio" yw Duw. Ond fy nghysur a'm cymhorth goreu ar daith dymhestlog bywyd yw'm cred ynddo, ac yn y cariad sydd tu cefn i'w holl weithrediadau.

* * *

Y mae dwy ganrif er y ganwyd "Williams Pantycelyn"—per ganiedydd Cymru, a dethlir yr amgylchiad drwy'r oll o'r Dywysogaeth gan bob enwad—oddigerth yr Eglwys a'r Undodiaid. Efallai na ddylwn roi'r enw "enwad" i'r Eglwys; proffesa hi fod uwchlaw enwadaeth. Yn y mater hwn, y mae "undeb yr eglwysi" yn ffaith,

a da iawn yw eu gweled yn uno ar rywbeth. Efallai nad oes enw mwy teuluaidd yng Nghymru nag enw "Williams Pantycelyn"; ac efallai, hefyd, na ellir enwi neb, yn ystod y tri chan mlynedd diweddaf, ddeil ei gymharu ag ef fel dylanwad ar fywyd crefyddol y genedl Gymreig. Bu farw yn 1791.

* * *

Pwy yw emynnydd mwyaf Cymru? Pe gofynnwn pwy yw emynnydd mwyaf poblogaidd Cymru, hawdd fyddai ateb; oblegid fe gytuna poblogaeth grefyddol Gymreig Cymru ym mron yn unllais mai "Williams Pantycelyn" ydyw. O ran lliosogrwydd ei gynhyrchion emynawl, y mae (gyda'r eithriad *posibl* o Iolo Morgannwg) yn sefyll, yn ddiamheuol, yn flaenaf ar y rhestr. Clywais ddweyd fod emynnau Iolo yn rhifo oddeutu dwy fil. Ai gwir hyn, nis gwn. Dim ond tua chwarter y nifer hwn sydd wedi eu hargraffu. O ran poblogrwydd, wrth gwrs, ni ellir enwi Iolo gyda Williams; nid yw emynnau'r cyntaf yn adnabyddus ond i ddyrnaid bychan o Gymru; tra y cenir emynnau'r olaf gan bob enwad trwy Gymru benbaladr.

* * *

Ond—pwy yw emynnydd mwyaf Cymru? A ddeil Williams ei safle fel y blaenaf ar y rhestr yn yr ystyr hwn? Gofynnaf y cwestiwn hwn, nid gyda'r bwriad o roi ateb iddo, ond yn hytrach er "codi'r cwestiwn i'r gwynt," fel y dywedir. Clywais ddweyd, neu, darllenais yn rhywle, os Williams bia'r gorffennol a'r presennol, Iolo bia'r dyfodol; hynny yw, fel y cilia rhagfarn sectol i'r cysgodau fe gydnabyddir godidowgrwydd cynhyrchion emynnawl Iolo fwy-fwy. Hyd yma y mae rhagfarn wedi gwarafun iddo ei safle fel un o emynwyr goreu Cymru. Ni chredaf fod hyd yn oed y genhedlaeth bresennol o Undodiaid yn ei werthfawrogi. "Mae'n rhy sych," "Mae'n rhy draethodol," neu yn rhy rywbeth cyffelyb, yw'r beirniadaethau o hono glywir yn aml.

* * *

Tra yn cyffwrdd a'r pwnc o emynnau, daw i'm meddwl y sylw a ganlyn, sef, nad yw yr hyn a eilw un yn "grefydd emynnau" yn gwneud ond ychydig gynnydd, os dim. Y mae addysg y pwlpud yn raddol yn cyfnewid er gwell—yn dod yn fwy dynol, rhesymol, cydfynedol â gwybodaeth oreu dyn; tra mai'r un emynnau genir heddyw ag a genid gant neu gant a hanner o flynyddau yn ol. Rhwng yr emynnau a genir a'r pregethau y mae (yn fynych) gryn dipyn o gagendor. Fe ddylai'r emyn, o ran syniadaeth, fod yn gyfryw a gydwedda a'r wybodaeth oreu.

* * *

Taith dymhestlog yw taith bywyd. Ie, taith fèr hefyd. Dyma ni newydd sangu dros drothwy blwyddyn newydd. I filiynau, blwyddyn lawn o ofid, a phryder a galar fu'r flwyddyn sydd newydd derfynu. Pwy all ddirnad trymder calon tadau a mamau ydynt naill ai wedi

colli plant annwyl drwy'r alanas waedlyd sydd wedi gorddiwes y gwledydd, neu yn ofni bob munyd y daw newydd drwg i'w clustiau. Anhawdd yw dweyd pa un sydd yn lladd yspryd dyn waethaf—ai pryder oblegid yr hyn all ddigwydd, ynte gofid neu alar oblegid yr hyn sydd wedi digwydd. Gan nad pa un sydd waethaf, y mae pob un o honynt yn ddigon llethol. Y fath filoedd na ellir dweyd eu nifer sydd wedi syrthio ar faes y frwydr yn ystod y flwyddyn, gan daenu cwmwl du dros aelwydydd fyrdd, ie, a pheri calonnau toredig mewn llawer achos.

* * *

I bawb o'r darllenwyr sydd wedi colli rhai annwyl ar faes y frwydr yn ystod y flwyddyn—tadau a mamau, brodyr a chwiorydd, a dyweddferched, perthynasau, a chyfeillion a chymydogion—cyflwynaf fy nghydymdeimlad llwyraf i ac eiddo'r darllenwyr ereill â hwynt yn eu galar dwys. Duw'r diddanwch a'u diddano.

*

* *

Oes ym mynwes y flwyddyn ddyfodol obaith am dorriad gwawr dydd gwell? Ofer yw pob proffwydo, oddieithr y bodola tir cadarn i seilio'r broffwydoliaeth arno. Fodd bynnag, anturiaf roi mynegiad i'r dymuniad arferol yr amser hwn o'r flwyddyn, sef, BLWYDDYN NEWYDD DDA i'n darllenwyr, a'r daioni pennaf fydd—HEDDWCH.

SYLWEDYDD.

TY SHON CWILT.

" Men are not angels, neither are they brutes ;
Something we may see, all we cannot see."
Browning.

Mae'r darllenydd o bosibl wedi clywed yr enw uchod, ac feallai wedi gweld y "Ty," ond sicr wyf nad yw wedi gweld Shon, gan fod Shon wedi gadael y Ty cyn ei eni ef, a'r Cwilt wedi diflannu'n fuan ar ol hynny.

Ond y peth sydd yn rhyfedd i mi yw'r meddwl fod math o anfarwoldeb, mewn ystyr, yn ymgysylltu weithiau a rhyw bethau distadl iawn. Yr oedd gan Shon yn ei ddydd gymydogion yn meddu, i bob ymddangosiad, ar fwy o gymwysderau arosol. Perthynent i sefyllfa gymdeithasol uwch, troent mewn cylch uwch, meddiannent fwy o'r cyfoeth y gesyd y byd gymaint o fri arno ; eto mae eu henwau hwy wedi diflannu. Ni pherthynai i Shon ddim yn neillduol, ar a wn i, i sicrhau anfarwoldeb yn fwy na'i gymydogion ; ond mae'r cymydogion wedi mynd heb adael dim ar eu hol

i gadw eu henwau ar glawr, a'r Cwilt, dybiaf, yw'r unig beth sydd wedi bod yn rhwystr rhag i enw Shon syrthio i ebargofiant.

Feallai fod gair o eglurhad yn y fan hon yn ddymunol. Yn ol yr hanes, ni fu gan Shon ond yr un "got" drwy ei oes hir. Cyrhaeddodd honno enwogrwydd fel y darfu iddi rhoddi ei henw i'r ty lle yr oedd Shon yn byw. Ni ellir dweyd fod dim yn neillduol yn perthyn i'r got heblaw ei pharheusder. Eto, er parhau, yr oedd fel popeth arall yn treulio gyda threigl amser, ac yr oedd Shon yn gorfod dodi clwtyn o bryd i bryd, pan fyddai twll yn awgrymu'r eisieu. Fel hyn, gyda threigl y blynyddoedd, yr oedd ansawdd a chyfansoddiad y got yn newid, nes o'r diwedd nid oedd un carpyn o'r got wreiddiol yn aros, ac eto yr un got oedd Shon yn wisgo o hyd, yr un got mewn ymddangosiad; nid oedd yr hunaniaeth—yr *identity*, fel y dywed y Sais—ond yn unig yn yr ymddangosiad, neu ddim ond yn yr enw. Yng ngolwg Shon ei hunan yr un got oedd, ac ni feddyliai ei gymydogion am foment ameu nad oedd Shon yn iawn.

Ond gadewch inni holi dipyn ym mhellach ar y pwnc

Beth yw Hunaniaeth?

Pe digwyddai i Shon rywbryd orfod croesi afon Clettwr i fynd at ei waith, yr un afon mewn ystyr fyddai raid iddo groesi wrth ddychwelyd adref yn yr hwyr, ie'r un afon, ond nid yr un dŵr. Mae'r dŵr yn newid yn barhaus. Mewn gwir, ni pherthyn hunaniaeth o gwbl i'r afon, nac ychwaith i ddim materol. Er i'r gwrthrych gael ei ystyried yr un o hyd, nid yw ei unoliaeth ond mewn ymddangosiad yn unig. Cymrwn enghraifft arall. Mae Shon, wrth adael ei dŷ y bore, yn edrych yn ol ac yn gweld y golofn o fwg yn esgyn o'r simnai; a thrachefn, wrth ddychwelyd adref yn yr hwyr, fe wêl yr hyn iddo ef yw yr un golofn uwch ben yr un cartref sy'n peri llawenydd i'w galon bob amser. Ond ai yr un yw mewn gwirionedd? Yr unig hunaniaeth a berthyn i fater, fel y dywedais, nid yw ond ymddangosiadol.

Wel, wel; ond beth am Shon ei hunan, ynte? Ydy Shon ei hunan wedi mynd i golli'n hollol ac am byth? Os mater yn unig oedd y pridd o'r hwn yr adeiladwyd corff Shon, yna mae Shon, neu o leiaf y corff y soniasom am dano, yn gymaint a'i fod yn ddarostyngedig i'r un deddfau a phob mater arall, wedi ei ddadansoddi a'i chwalu i bob cyfeiriad. Nid oes dim materol yn aros yr un am y filfed ran o eiliad. Swydd yr ufelai (*oxygen*) sydd yn ffurfio'r wythfed ran o'r awyr o amgylch i ni yw llosgi. Efe sydd yn llosgi'r glo yn y grat. Mae'n gyffelyb wrth ei waith, heb i ni ei weld na'i ddeall feallai o hyd yn llosgi ac yn trawsnewid cymaint o hunaniaeth ac a berthyn i bopeth materol. Gwelwn y trawsnewid yn y ganwyll pan fydd yng nghynn; ond nis gwelwn ef mor amlwg yn y corff dynol, er fod y llosgi a'r trawsnewid yn cymryd lle yno mor wirioneddol ac yn y glo yn y grat. Os bydd y llosgi yn rhy gyflym, yna daw twymyn a marwolaeth feallai mewn canlyniad. Yn gyffelyb, os bydd y llosgi yn rhy araf, ceir marwolaeth yn canlyn. Dywed y fferyllydd ein bod i gyd ar dân hyd flaenau ein bysedd. Cedwir y tân hwn yn nghynn gan y bwyd a fwytawn. Rhed y tân ar hyd y gwythiennau megys ar hyd ffliw simnai, gan losgi y mymrynau sydd wedi gorffen eu gwaith, i roi lle i ereill. Dyna fel y mae bywyd y corff yn cael ei gynnal a'i gadw i fyny.

Ei gynnal a'i gadw i fyny; eithr dim ond am

Ei Amser Terfynedig.

Rhaid i gorff Shon, megys y pethau a enwyd genym, ddarfod a diflannu. Yn wir mae wedi gwneud hynny. Ie, corff Shon, onide? Ond y mae hynny yn awgrymu rhywbeth heb-

law,—corff Shon, ac nid Shon ei hunan. Pan soniwn am ddwylaw Shon, traed Shon, golygwn rywbeth sy'n eiddo Shon, ac ar wahan i Shon ei hunan. Eiddo Shon hefyd yw ei gorff, ac nid ei hunan personol. Mae

PERSONOLIAETH

Shon yn awgrymiadol o rywbeth arosol, rywbeth yn parhau, y rhywbeth hwnnw a alluogodd Shon i deimlo mai yr un efe, yr un *Fi* a wisgodd y got am y tro cyntaf ac a barhaodd i'w gwisgo drwy'r blynyddau, hyd oni adawodd hi ar derfyn ei oes hir.

Mae dyn, y creadur byw, yn rhywbeth gwahanol i'r mater, neu'r defnydd, sy'n gwneud i fyny y gwrthrych cyfnewidiol y soniasom am dano fel corff dynol. Y gwir ddyn, mae yn rhywbeth na fedr pestl a mortar y fferyllydd ddim o'i gyffwrdd. Mae yn rhywbeth nad yw yn faterol,

RHYWBETH SY'N PARHAU,

rhywbeth sydd yn sail i bethau symudol y bywyd anifeilaidd i chwareu arnynt. Anodd dweyd beth yw, na chael amgyffrediad clir o hono; ond gwyddom fod yna rywbeth a *berthyn* i ni, neu yn hytrach y rhywbeth sydd yn gyfystyr a'r "Ni" ei hunan sydd yn parhau yr un drwy holl brofiadau a chyfnewidiadau'r corff o gig a gwaed.

Geilw'r Sais ef weithiau yn *substance*, gan olygu rhywbeth sy'n *sefyll dan* holl *phenomena* neu ymddangosiadau bywyd. Gallwn ei alw gyda Paul yn gorff ysprydol—neu unrhyw enw arall, cyhyd ag y byddwn yn deall ac adnabod *y peth*. Mae'r dosparthiad Ysgrythyrol yn gyfleus ddigon ac yn awgrymiadol—*corff, enaid, yspryd*. I'r ddau olaf yn unig y perthyn hunaniaeth. Ni ddeuwn ddim at y dyn gwirioneddol, y person anghyfnewidiol, nes mynd trwy y plisgyn materol allanol.

Dywedwn fod y bachgen yn tyfu, ond dylem gofio nad yw'r cynydd neu'r lleihad yn y corff materol ddim yn gwneud hunaniaeth yn fwy nac yn llai. "Sut y dymunech i ni eich claddu," ebe Cristo wrth Socrates. "Y modd y mynoch," ebe yntau, "ond mae'n rhaid i chwi ddal gafael arnaf, a gofalu na ffoaf oddiwrthych." Ceisiwn sylweddoli ystyr geiriau Paul: "Os ein daearol dy o'r babell hon a ddatodir, y mae i ni adeilad gan Dduw, sef ty nid o waith llaw tragwyddol yn y nefoedd."

T.C.U.

O FAES Y FRWYDR.

III.

Mae y *Red Triangle*—arwyddlun y Y.M.C.A.—yn sefyll am gorph, yspryd, ac enaid; a cheisia y gymdeithas ddiwallu angenion y drindod yma mewn perthynas i ddyn. Yn ein llith diweddaf, ceisiasom roddi amlinelliad byr o'r hyn ddarperir mewn *Hut* ar gyfer y corph. Rhaid i ddyn fod yn siopwr (*grocer*) da cyn y gall redeg *Hut* yn llwyddianus, oblegid trwy'r siop y daw llawer i'r cysegr yno. Daw ereill trwy'r chwareufa, a'r ystafell ddiwylliadol, yno. Amcan pennaf pob dyn sydd yn rhedeg *Hut* ydyw cadw y bechgyn i lynu wrth Grist, ac i enill

"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

GOLYGYDD—
Y PARCH. T. ARTHUR THOMAS, LLANDYSSUL.

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

CYFRES YR UGEINFED GANRIF.

CYFROL 17.
— 1917. —

LLANDYSSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER.

CYNHWYSIAD.

A chauwyd y drws, 61.
Agwedd foesol a chrefyddol ein Byddin, 71.
Ar Edyn Ffydd, 1, 33, 114.
Arholiad yr Ysgolion Sul, 106.
At ein Gohebwyr, 16.

Caniadaeth yn Aberdar, 145.
Câr dy Gymydog, 129.
Chwerthin, 43.

Congl yr Awen—
Bydd barod Israel i gyfarfod a'th Dduw, 165.
Canu'n iach, 96.
Cwyn Coll ar ol y diweddar D. Evans, Ffynonfair, 85.
Cyngor i'r Darllenydd, 32.
Deigryn Hiraeth, 140.
Dros brydnawn yr erys wylofain, 33
Dydd fy Ngwlad, 90.
Dydd Gwyl Dewi Sant, 36.
Dy holl donnau a aethant dros-wyf, 176.
Emyn, 96.
Emyn y Morwr, 144.
Gweddi am Adfywiad, 95.
Gwraig y Milwr, 176.
Gwyddelig yn ei Fedd, 128.
I'r diweddar John Thomas, Glasbant, 53.
Jones, Er Cof am y Parch. T. Lloyd, 192.
Mair, 100.
Noddfa a Nerth, 114.
O Seren y Gwirionedd, 11.
Rhyfel, 32.
Sant Dewi, 44.
Testament y Sant, 48.
Tri Beddargraff, 144.
Trothwy'm mhedwar ugain oed, 96
Y Flwyddyn Newydd, 15.
Y Gwehydd, 20.
Y Gragen, 135.
Y Llenor, 28.
Ymson Mam, 5.
Y Plentyn a'r Ysgol, 128.
Y Tank, 75.
Yr Hauwr, 24.
Yr Wniadyddes, 32.

Crefydd Bechgyn y Coleg, 41.
Cristnogaeth y Brahmo Somaj, 21.
Croesi'r Trothwy, 2.
Cyfarfodydd Cymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, 10.
Cymanfaoedd Canu, 108.
Cynllun Iesu Grist i sicrhau Iachawdwriaeth, 56.
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, 138.

Dynion da yn Uffern, 122.

Esgair-lâs, 166.

Ffenestr Goffa, 9.

Hanner Can' Pwynt dros Undodiaeth, 25, 39, 74, 122, 152, 168.

Jones, Y Parch. Tom Lloyd (gyda Darlun), 177.

Llên a Bywyd, 49, 66, 80, 97.
Llythyr Agored, 91.
Llythyr o Malta, 7, 22, 71.

Manion ac Hanesion, 14, 30, 47, 63, 78, 93, 111, 126, 142, 159, 173, 191.
Marwgofion, 12, 29, 45, 62, 76, 93, 110, 125, 141, 158, 172, 190.
Meddyliau da ar gyfer amseroedd-drwg, 1.
Myfyrdodau mewn Hanfodion, 6.
Mynd i'r Cwrdd, 136.

O Faes y Frwydr, 170, 181.
Oddiar y Twr, 34, 104, 149, 161, 185.

Pa un yw'r Grefydd oreu? 57.
Pan ddaw'r Bechgyn Adref, 54.
Perthynas Rhyddid a Deddf, 120.
Priodasau, 12, 29, 75, 109, 125, 141, 157, 190.
Profiadau Milwr yn Nwyreinbarth Affrica, 101, 116, 154.

Tuag Adref, 183.

Williams, Pantycelyn, 114.

Y Bwthyn yn y Wlad, 17.
Y Dydd yn Estyn, 59.
Yn fy Llyfrgell, 27, 37, 69.
Yr Yspryd a'r Eglwys, 86.

bechgyn i Grist. Mae'r holl bethau ereill wneir yn yr *Hut* yn is-wasanaethgar i'r amcan mawr hwn. Y mae rhagor nag un ffordd o achub eneidiau, ac fel mae gwaethaf modd mae rhagor nag un ffordd o ddamnio eneidiau yn Ffrainc. Awyrgylch grefyddol sydd mewn pob Y.M.C.A. *Hut*, a gwyr pob bachgen ddaw i mewn yno hyn. Ar y muriau gwelir cardiau, ac arnynt yn brintiedig froddegau tebyg i hyn—"Peidiwch anghofio ysgrifenu gartref," "Peidiwch anghofio'r Capel yn yr hen wlad," "Croesaw calon," "Cheero," &c. Ceir yno hefyd ddarluniau digrif a thyner i adnewyddu y meddwl prudd. Oni chlywsom dro ar ol tro ambell i fachgen talentog yn dweyd wrthym—"Diolch i Dduw am Y.M. *Hut*"? Teimlent ei fod yn nefoedd iddynt, ac yn adnewyddiad yspryd a meddwl ac enaid iddynt wedi *discipline* y *barrack-room*, a drycin y *trenches*. Gwneir popeth yn yr *Hut* gyda chyn lleied o ffurfioldeb ag sydd bosibl. Ymysg y bechgyn ardderchog gwrddasom yno, yr oedd ffurfioldeb o unryw fath yn ysgymunbeth. Ond yr oedd yno *sincerity* a *reality* mewn gair a gweithred. Yr oedd hyn yn iechyd corphorol ac ysprydol i bawb ohonom. Disgyblwr llym ydyw Perygl, ond y mae ganddo wersi mawrion.

Un o bethau amlwg pob *Hut* ydyw ei gyngherddau (*concerts*). Y mae yn saith o'r gloch yn yr hwyr, a'r *Hut* yn llawn o fechgyn hawddgar yn chwareu, ac yn diwallu y "dyn oddifewn." Gwaeddwn allan, "Fechgyn, gawn ni goncert heno?" "Cawn," ydyw'r floedd mewn atebiad, a ffwrdd a ni mewn amrantiad i ben pella'r *Hut*. Awn i fyny i'r llwyfan. Mae yno *piano* bychan. Gwaeddwn allan am *pianist*, ac ar unwaith wele ryw fachgen â *honourable mud* y *trenches* ar ei wisg yn neidio i fyny, ac yn dechreu chwareu. O un i un daw'r cantorion i fyny—a rhyfedd y dalent o bob math geir yno—ambell i ganwr yn ein cludo i fyniau uchaf cerddoriaeth, ambell i adroddwr yn toddi ein calonnau, ambell i *actor* medrus yn tynu allan ohonom *roars of laughter*. Ni fedr rhu y magnelau ladd eu *cheerfulness*. Ymhen ychydig, dichon y bydd llawer o'r bechgyn yma yn gwynebu'r gelyn yn y *trenches*.

Ambell dro, gelwir ganddynt am *speech* oddiwrth y *bloke* yna ar y *stage*, a phryd hyn y daw cyfle'r Y.M. *man* i yrru adref, os yn chwim ei feddwl, ambell i wirionedd pwysig. Os na fyddant yn hoffi'r annerchiad, dywedant hynny yn ddi-dderbynwyneb, a chauant ei gêg yn o fuan; ond os yn ei hoffi, fe geir banllefau gwirioneddol o gymeradwyaeth. Nid yw'r Amen mor ffurfiol yno ac mewn ambell i gapel yng Nghymru.

Bryd arall, ceir cystadleuaethau mewn chware *bagatelle* neu *draughts*. Nid oes eisiau trefnu y pethau hyn ymlaen llaw, a diolch am hynny. Gwneir popeth yn hollol ddi-seremoni, a dirodres, ar y pryd.

Clywsom am ambell i bwyllgor yng Nghymru yn hala misoedd o amser i drefnu rhaglen eisteddfod "fechan fach," ac am ambell i gynghor plwyf neu ddosbarth pwysig yn gwastraffu nosweithiau lawer i benderfynu torri cwter lathen o hyd rywle. Duw a'n helpo ni a'n *fuss* a'n ffwdan pan ddaw'r bechgyn yma yn ol. 'Dyw llawer o bethau ydym ni wedi arfer meddwl sydd bwysig ddim felly yn eu golwg hwy. Cashânt bomp a rhodres, ond edmygant *sincerity* a *reality*. "Na thwyller chwi," &c.

Bryd arall ceid areithiau gan wahanol areithwyr ar byngciau agos at y milwr. Ac o'r fath wrandawiad astud a roddent, os y triniai'r dyn ei bwngc mewn modd di-lol a dirodres! Ond os y sawrai yno y *condescending manner*, nid hir y byddai Tommy cyn codi, a throi ei gefn yn sydyn ar y pwlpud a'r cyfan i gyd. Os oedd dyn am destio ei neges a'i allu, dyma'r fan—o flaen dau neu dri chant o'r bechgyn hyn.

Gwelsom lawer i neges ffugiol yn troi yn fethiant yma, ond dim erioed Neges "y newyddion da o lawenydd

mawr," os y rhoddid hi yn y ffurf iawn.

Gwelsom yma ambell i "wr Duw" yn denu ugeiniau dan gysgod y Groes.

Gwelsom y chwareufa yn aros, y byrddau a'r bwyd yn cael eu gadael, a phawb yn cyfranogi o Fara y Bywyd.

Yno, yn swn y magnelau, ymhell o'r hen gartref, ymhell o'r hen gapel a'r hen ardal,—wedi ein halltudio oddiwrth rieni a chyfeilion annwyl—oni theimlasom fod yna Gyfaill gerllaw yn glynu yn agosach wrthym na brawd na cheraint. 'Roedd yno "dangnefedd pur a hedd" ynghanol y terfysg i gyd. Yn ddiau, yn swn y Rhyfel ar y ddaear, clywsom y Marchog Tragywyddol yn myned heibio, ac fe ddaw'r dydd pan "nas gall Daear Ei wrthsefyll Ef, chwaith, nag Uffern Fawr ei hun." Efe fydd *Re-constructor* y dyfodol, ac O! gochelwn rhag siarad gormod am ein systemau dynol bychain. Peidiwn ymddiried gormod mewn braich o gnawd, mewn swyddogaethau a threfniadau dynol. Nac anghofiwn y "Breichiau Tragywyddol." Un *sweep* oddiwrthynt hwy a ysguba ein castelli awyrol i ffwrdd mewn moment.

Clywsom am rywun yn dweyd mai rhyw rith o grefydd oedd yn y Fyddin. Mae yn sefyll yn union pa beth oedd y gwr hwnnw yn feddwl wrth ymarfer y gair crefydd. Os y golygai gruglwyth o seremoniau a defodau, 'does dim rhith hyd yn nod o grefydd yn y Fyddin, a diolch am hynny. Credwn ni fod digon o grefydd yn y Fyddin i ddwyn diwygiad i Brydain Fawr—diwygiad crefyddol ac ysprydol, yn ogystal a diwygiad cymdeithasol.

Daw—fe ddaw yna weledigaeth newydd i dorri ar olygon pwl y byd. Ceir gweled Un heb gleddyf na grym arfau, yn sathru dreigiau dan ei draed, ac yn cerdded gwledydd y ddaear yng nghyflawnder ei nerth.

(Pw barhau.)

D. Cellan Evans.

Y FFENESTR A'R CERDYN.

Gan Anthropos.

I.

Neges bennaf llenyddiaeth ydyw dyddanu, a melysu bywyd. Hawdd fyddai ategu hyn drwy ddyfynnu geiriau y sawl sydd wedi ysgrifennu ar y pwnc. Ond y mae brawddeg Mathew Arnold yn ddigon, fel adnod ar y mater. Gelwid ef, fel llenor a bardd, yn apostol melusder a goleuni —'Sweetness and light.' Ac nid ydyw yr ymadrodd hwn namyn cyfaddasiad o Lyfr y Pregethwr, 'Melus yn ddiau, yw y goleuni, a hyfryd i'r llygad yw gweled yr haul.' Rhaid wrth oleuni i fwynhau y melusder. Gellir dweyd am bob awdur sydd yn gweinyddu cysur a dyddanwch, fod ei lygad, ar ryw adeg, wedi 'gweled yr haul.' Gall dynion ysgrifennu 'liw nôs,' ond nid oes nemawr o felusder yn eu gwaith. Y mae'r ystlum yn casglu ei hymborth yn y gwyll; rhaid i'r wenynen wrth liw dydd. Ond ganddi hi y ceir y mêl. Y mae goleuni a melusder yn gymdeithion, ac yn cynghaneddu'n dlws.

II.

Ond cyn y gellir cyfrannu melusder—rhaid ei gael. Ac y mae wedi mynd yn nwydd lled brin yn y cyfnod hwn. Dyna ei hanes yn mhob cylch, ac nid ydyw y cylch llenyddol yn eithriad. Dyna gwyn y sawl sydd yn ceisio cynyrchion melusion. Y mae galw am danynt, ond anhawdd ydyw cael y defnydd dyladwy i'w droi yn felusfwyd ac yn ddanteithion. Cymerwn un dystiolaeth awgrymiadol o fyd y chweg-nwyddau. Yn ffenestr masnachdy mewn tref boblogaidd, gwelsom yr hysbysiad a ganlyn 'Owing to the shortage of sugar we cannot make the usual display in this window.'

Ac yr oedd y ffenestr ei hun yn cadarnhau y gosodiad. Nid oedd ynddi nemawr o'r pethau melus fyddai'n arfer attynu y fforddolion. Yr oedd y ffenestr ei hun yn aros fel cynt; y gwydr yn dryloew, a'r goleu yn disglaerio o'i hamgylch. Yr oedd y sawl fyddai'n arfer trefnu y nwyddau—y 'window dresser'—yn llawn mor fedrus a chywrain gyda'r gorchwyl. Ond nis gellid gwneyd yr arddangosiad arferol. Pam? Y mae'r ateb yn glir a diamwys—'Shortage of Sugar. Dyna'r esboniad; y siwgr oedd yn brin.

III.

Ac onid gwir hyn mewn cylchoedd eraill? Y mae ffenestri llenyddiaeth yn llai addurniadol. Buont, ar un adeg, yn 'ffenestri aur'; ond y mae'r ysplander wedi ymado. Dyna hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn. Erys y ffenestr, ond nid fel cynt. 'We cannot make the usual display.' Cyffes onest iawn o eiddo y chweg-fasnachydd. Safasom gryn ennyd wrth y ffenestr honno i ystyried y peth. Yr oeddym wedi ei deimlo gyda'n gwaith ein hunain. Meddyliem fod y "ffenestr" yn fwy cyffredin nag arfer. A chlywsom ein brodyr llengar yn cydnabod yr un peth am yr eiddynt hwythau. Ond wrth ffenestr y masnachdy hwnnw y gwelsom y rheswm am hyn oll. Y siwgr sydd wedi mynd yn brin—'shortage of sugar.' Y mae y rhyfel echrydus hwn wedi gwneud llawer o bethau yn brin, ac anodd eu cael. Ond un o'r anffodion mwyaf i gysur a dyddanwch bywyd ydyw—prinder siwgr; anelwig ddefnydd melusder a mwynhad. Ac y mae yr un peth wedi taflu ei gysgod ar lenyddiaeth.

IV.

Ond yr oeddym yn llawen o weled y masnachdy chweg-nwyddau yn agored. Nid oedd y perchen yn torri ei galon, ac yn cau y siop. Rhoddai y pethau oedd ganddo yn y ffenestr, a gwnelai ei oreu i'w gosod yn drefnus a chelfydd. Nid oedd raid iddo gywilyddio mewn un modd. Yr oedd y ffenestr, fel yr oedd, yn 'work of art.' Rhoddodd hynny o 'siwgr' ag a feddai yn ei nwyddau. Ac wrth edrych ar y ffenestr yr oeddwn yn teimlo awydd i fynd at y dyn, pwy bynnag oedd, i ddweyd nad oedd anghen am iddo hysbysebu ei fethiant i'r cyhoedd. Hawdd ydyw gwneyd 'display' gyda chyflawnder o siwgr. Y gamp ydyw gogoneddu yr 'ychydig,' a pheri i'r ffenestr ymddangos yn oleu a hudolus. Felly gyda llenyddiaeth. Y mae ei pethau melusaf wedi dod o feddyliau a allasent gwyno oherwydd prinder moethau a melusion—'shortage of sugar.' Gymaint o felusder sydd yn emynau Pantycelyn! Ond pan yn gorphen un o'i brif weithiau barddonol, y mae yn lled gwyno oherwydd ei fod mor gyffredin yn ei olwg ef ei hun. 'Cymerwch Theomemphus fel ar ffyn baglau.' Nid oedd y ffenestr mor odidog ag y carasai iddi fod. A dyna Dafydd Morus, Twrgwyn, yn galw ei emynau yn 'fara haidd,' ac yntau wedi canu'r pennill hwnnw—

Goleuni'r nef fo'n gymhorth im',
I'm tywys yn y blaen,
Rhag imi droi oddiar y ffordd,
Bydd imi'n golofn dân.

Yr oedd y bara'n wynnach nag

oedd efe yn ei dybied. Nid oedd raid iddo gwyno oherwydd y 'shortage of sugar.'

V.

Melusder ydyw dewisol nwydd llenyddiaeth. Gall y chwerw a'r sur dynnu sylw am dymhor. Ond nid oes i'r pethau hynny ddinas barhaus. Try y duchangerdd yn ddiflas yn nghwrs amser. Erys y delyneg, a cheidw ei blas peraidd. Melusder a goleuni! Ond rhaid i'r pethau hyn fod yn enaid y llenor a'r bardd. Nid atgludion ydynt, yn dibynnu ar ffawd a damwain. Nid oes gan yr un 'food-controller' awdurdod arnynt Cynyrchir hwy gan ddylanwadau cyfrin a chudd. Nid rhyw elfen fasw, arwynebol, ydyw melusder. Dyna syniad rhyw ddosbarth. Y maent yn synied yn amgen nag y dylid synied. 'O'r cryf y daeth allan felusder.' Nid rhyw deimladrwydd plentynaidd sydd yn cyfrif am dano. Y mae yn gorwedd ar nerth. Y dwfr melusaf, ebai un awdur, ydyw y dwfr sydd yn llifo dros greigiau o ithfaen.

Ces ddwr o'r graig i yfed.

Ac y mae hwnnw felused a ffynnon Bethlehem.

VI.

Yr ydym wedi crwydro. Ond, gan gofio, sefyll yr oeddym wrth y ffenestr, ac yn darllen cwyn y chwegfasnachydd, oherwydd y 'shortage of sugar.' Yr oeddym yn cydymdeimlo ag ef, ac eto yn teimlo'n ddiolchgar wrth weled y ffenestr mor oleu, er nad oedd efe yn abl i'w "haddurno" megis cynt. Bydded i lenorion a beirdd gymeryd cysur. Ni raid iddynt dynnu y llenni i lawr. Y mae melusder yn eisiau heddyw. Pa bethau bynnag sydd bur, a pha bethau bynnag sydd hawddgar, meddyliwn am y pethau hyn.

VII.

Nid ydym yn gwneyd unrhyw ymddiheurad dros ddiffygion neu esgeulusdra. Dyled ar bawb ydyw rhoddi ei oreu yn ei waith. Ond dylid estyn yr un hynawsedd i'r llenor ag a wneir i'r chweg-nwyddwr. Nid hawdd ydyw addurno'r ffenestri, fel arfer. Y mae'r siwgr yn brin. Ond, hebddo, y mae'r ysgrif a'r ganig yn ddiflas a diswyn. Clywsom am ddau frawd yn pregethu gyda'u gilydd un o'r dyddiau o'r blaen. Yr oedd un yn 'alluog' a 'sylweddol,' meddai'r beirniaid. Y llall yn 'felus' a 'hyfryd. A hwnnw oedd yn taro gyda'r 'bobl.' Nid rhyfedd hynny. Y mae'r 'bobl' yn adwaen melusder ac yn dyheu am dano. Da yw yr halen, ond gwell yw y siwgr! Un o'r elfennau hanfodol ydyw melusder a goleuni. Dylai meddyliau dyn gael eu nawseiddio gan y meddyliau Dwyfol – sydd yn 'felusach na'r mêl, ac na diferiad y diliau mêl.'

YR YSGOLFEISTR.

Diwyd agorwr deall,—sigla fyd,
Yw'r Ysgolfeistr diball:
Heb draha cywira wall,
A sieryd wrth oes arall.

Hywel Cernyw.

PRIODASAU.

Yn y Graig, Gellionen, dydd Iau, Hydref 25. o flaen y Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, a'r Parch. D. G. Rees, unwyd mewn hardd briodas, Mr. Albert George Hartnell, Pontardawe, a Miss Dilla Saunders, Trebanos.

I Ddilla bert, Albert oedd—ei ffrynd
I wrando ar ; ydoedd [hoff
Y cywir gâr ;—ac ar goedd,
Mae'n dwr cain mewn dryghinoedd

I Albert, Dill oedd bertaf ;—wrth
" Hymen "
Oedd feinwen addfwynaf ;
Yn nydd o hwyl, dan nawdd haf,
Diddenir dau ddianaf.

BANOS.

Ar y 30ain o Dachwedd, yng Nghapelygroes, gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, a cher bron y cofrestrydd, Mr. T. Llywelyn Evans (brawd y briodferch), Mr. D. Lodwick Evans, Tynfron, Gartheli, a Miss Hannah Gertrude Evans, Ffynonfair. Hir oes a dedwyddwch fo'n rhan iddynt.

MARWGOFION.

TACHWEDD 23ain, mewn brwydr yn Ffrainc, yng nghymydogaeth Cambrai, syrthiodd Tom Davies, annwyl fab (yr ieuengaf) i Evan a Jane Davies, Frondeg, ger Cribyn, yn yr 21ain flwydd o'i oedran. Ymunodd â'r fyddin Mai 6ed, 1915, ym mhen dau ddiwrnod ar ol cyrhaedd o hono yr oedran milwrol. Ar ol tua deufis o hyfforddiad, aeth allan i Ffrainc, ym mis Gorffennaf dilynol, a bu yno, ym mron yn ddi-dor, hyd y dyddiad uchod. Bu mewn nifer liosog iawn o frwydrau—aeth drwy'r oll o ymosodiad y Somme, gan gymeryd rhan (ym mhlith ereill) ym mrwydrau Mametz Wood, La Boisselle, Contalmaison. Bu mewn brwydrau ereill, mwy neu lai pwysig, cyn ac ar ol yr uchod. Daeth trwy'r oll yn ddianaf hyd y dyddiad a enwyd. Tua blwyddyn yn ol, bu ar ymweliad a'i gartref a'i gymydogaeth enedigol, ar ol bod mewn Ysbytty yn dioddef oddiwrth ffosdwymyn. Cyn dychwelyd o hono, croesawyd ef mewn cyngherdd yng Nghribyn, pryd y cyflwynwyd iddo anrhegion fel arwydd o barch iddo ac o ddymuniad da tuag ato. Talodd ymweliad arall â'i gartref ar ol hyn, ym mis Mawrth dilynol, cyn dychwelyd o hono i faes y frwydr. Tra yn nhre y ddau dro hyn, ymddangosai yn awyddus i ddychwelyd (fel y dywedai) "i wneud ei ran." A gwnaeth ei ran yn ardderchog. Fel ei deulu, bu yn ffyddlon neilltuol mewn cysylltiad â'r achos Undodaidd yng Nghribyn. Er pan yn ieuanc iawn bu'n fynychydd ffyddlon o'r Dosbarth Beiblaidd, yr Ysgol Sul, a'i addoliad ; a phan ddaeth i oedran addfed, ymaelododd ; a bu yn ffyddlon fel aelod hyd yr aeth i'r fyddin ; ie, bu'n ffyddlon hyd angeu, oherwydd, er yn absennol o ran corff, mae gennyf reswm dros gredu ei fod yn bresennol gyda'i hen gyfeillion o ran meddwl a chalon.

Credaf fod ei ffyddlondeb i'r allanolion hyn, yn ogystal â'r addysg a'r esiampl uchel gafodd gan ei rieni ar yr aelwyd, wedi gwneud eu hôl ar ei gymeriad, oblegid yr oedd yn ddyn ieuanc o gymeriad ardderchog. Nid oes ynof un petrusder i ddweyd hyn. A chadwodd ei gymeriad yn lan hyd y diwedd. Ni all hyn lai na bod yn gysur mawr i'w rieni a'i frodyr a'i chwiorydd, heddyw, pan y maent wedi ei golli. Dyna un agwedd annymunol iawn o'r rhyfel presennol — ei fod yn amddifadu cymdeithas o'r fath filoedd o ddynion ieuainc o gymeriadau mor ardderchog; oherwydd dyna ellir dweyd (fel y credaf) am y mwyafrif mawr o'r Fyddin Brydeinig heddyw. Y mae hyn yn golled annhraethol, na all cymdeithas lai na dioddef o'i blegid. Gadawodd dad a mam, tri brawd a dwy chwaer, ynghyd a nifer liosog o berthynasau a chyfeillion, mewn hiraeth dwys ar ei ol. Y mae'r tri brawd hefyd gyda'r fyddin. Nid oes 'angen dweyd fod cydymdeimlad cyffredinol â'r teulu yn eu galar, a gweddi calon pawb o'u cydnabyddiaeth yw, ar i Ragluniaeth daenu Ei aden amddiffynnol dros y bechgyn ereill. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo yn Nghapel Cribyn prydnawn dydd Sul, Rhagfyr 23ain, pryd y daeth nifer liosog anarferol o fobl ynghyd i dalu eu teyrnged o barch i'n cyfaill ieuanc, ac i ddangos eu cydymdeimlad â'r teulu. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog. Testyn y bregeth oedd 2 Tim., ii. 3: "milwr da i Iesu Grist." Canwyd yr emynau a ganlyn—"Yng nghanol pob gofidiau maith," "Rwy'n sefyll ar dymhestlog lan," "Mor hoff yw cymdeithas y saint," "Esgyn gyda'r lluoedd"—y ddwy gyntaf o ddewisiad ei rieni, a'r ddwy olaf yn hoff emynau'r ymadawedig. Ni'm synnir fod yr olaf yn hoff ganddo, gan y cydwedda ysbryd yr emyn mor llwyr â'i ysbryd ef. Nid ar yr ochr dywell i bethau yr arweinia yr emyn ni i sylwi, eithr ar yr ochr oleu; a sain buddugoliaeth, ac nid ymollyngdod ysbryd, a'i nodwedda drwyddi. Dyna ddwy nodwedd amlwg yng ngymeriad ein cyfaill. Cyfeiliwyd gan Miss Evans, Mynach Arms, ac ar y terfyn chwareuodd y "Dead March" yn hynod o effeithiol. Terfynwyd y gwasanaeth—gwasanaeth a hir gofir ar gyfrif y dwyster teimlad a'i nodweddai—gan y Parch. R. E. Davies, ein hoffus ficer, drwy'r fendith arferol. Yr oedd y plethdorchau a ganlyn wedi eu danfon i'r capel — gan ei rieni, cynnulleidfa Cribyn, ei chwaer-yng-nghyfraith (Blaencruser), ei fodryb (Caehir), a Mr. a Mrs. Griffith, Ysgol y Cynghor, ac yr oedd y capel wedi ei wisgo â galar arwyddion ereill gan amryw aelodau o'r gynulleidfa. "Da, was da a ffyddlawn," buost yn "filwr da i Iesu Grist," a bydd y goffadwriaeth am danat, oblegid hyn, yn annwyl a melys.

TACHWEDD 25, yn 82 mlwydd oed, Mrs. Hannah Thomas, Fedwen Villa, Llandyssul, gan adael mab a merch mewn galar o'i cholli. Claddwyd y dydd Llun dilynol yn mynwent Pantydefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Ben Davies (A.), Seion, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. T. Arthur Thomas.

MANION AC HANESION.

GELLIONEN.—Boreu yn Gellionen, a nos Sul, Tachwedd 4, yn y Graig, cynaliwyd y Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhauaf. Cafwyd oedfaon hwylus, a gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees. Rhowd nwyddau gan garedigion at, ac addurnwyd y ddau dŷ gan y chwiorydd. Derbynied y cyfryw y diolch arferol.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—Nos Fercher, Medi 5, 1917, yn Ysgoldy yr Hen Dy Cwrdd, cynhaliwyd cyfarfod er croesawu y brawd ieuanc, Private John Euryn Davies, Ardwyn, ail fab Mr. D. Tyssul Davies, yn ol o faes y gâd, wedi bod am ddeunaw mis yn German East Africa. Hawdd oedd deall wrth wynebau pawb oedd yn bresenol eu bod yn ei roesawu a chalonau gwresog, ac yn falch iawn i'w weled yn edrych mor dda ag ystyried ei fod wedi bod am amser maith yn yr Ysbytty, gan dwymyn. Cawsom hefyd yr hyfrydwch o gael presenoldeb un arall o blant yr eglwys oedd ar *furlough*, sef Private D. W. Davies. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus dan lywyddiaeth y Parch. E. R. Dennis. Aed trwy raglen amrywiol o ganu ac adrodd, a theimlem yn ddiolchgar iawn i'r cyfeillion hynny gymerodd ran nad oeddynt yn dal perthynas a'r Hen Dy Cwrdd, ond wedi dyfod i ddangos eu parch a'u hedmygedd o'r brawd ieuanc. Rhoddwyd i Johnny Eiryn (fel yr adwaenwn ni ef) rodd fechan ar ran yr eglwys gan y Parch. R. J. Jones, M.A., fel arwydd o'n parch a'n edmygedd ni o hono; diolchodd yntau mewn modd hapus a sylweddol iawn, gan roddi i ni ychydig o'i brofiad ag egluro rhai o'r dulliau oedd gan y brodorion o fyw. Dymuniad pawb oedd ar i fendith Duw ei ddilyn, ac y cawn ei weled yn ol yn fuan, a'r terfysg anymunol wedi terfynu. Yr oedd trefniadau y cyfarfod wedi eu gwneud gan Mr. D. R. Davies, a Mr. T. G. Morgans, ysgrifennydd a thrysorydd blwch y parseli.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Rywfodd gosodais un benod yn lle y llall yn Maes Llafur, Safon II. Nid yw Genesis 38 i fod, ac y mae yr un adewais allan, sef Genesis 39 i fod. Wele y penodau, Genesis 37, 39, 40, 41 : 1—44.—*L. Williams, Ysg.*

DECHREU BLWYDDYN.—Ar ddechreu blwyddyn eto dymunwn i holl ddarllenwyr YR YMOFYNYDD

FLWYDDYN NEWYDD DDA.

Dechreuwn hi yng nghanol anhawsterau a phryderon, ac nid oes neb all ddweyd pa hyd y pery. Gobeithio y gwelir ynddi ddymuniad dyfnaf pob calon yn cael ei sylweddoli, ac y caiff heddwch ei adfer i'r tir, ac y gwneir hi yn amhosibl i neb byth mwy dori ar yr heddwch hwnnw fel y gwnaed yn Awst 1914. Hyderwn y gwna'r awyrgylch gymylog a thywyll glirio yn fuan yn ystod y flwyddyn newydd, ac y bydd i gyfiawnder ffynu.

Cymerwn y cyfleustra hwn i gyflwyno ein diolchgarwch mwyaf diffuant i'n dosbarthwyr a'n darllenwyr am eu cefnogaeth a'u ffyddlondeb. Hebddynt hwy buasai yn amhosibl myned ymlaen. Yr ydym hefyd dan ddyled drom i'r ychydig ohebwyr ffyddlon sydd wedi bod bob amser mor barod i'n cynnorthwyo. Carem wneyd apêl at eraill fedrant ein helpu yn y cyfeiriad hwn. Holed pob un ei hun ar y mater, a ydyw wedi gwneud yr hyn ddylai i gadw'r unig gylchgrawn feddwn yn fyw yn ystod y flwyddyn. Y mae ein hanawsterau i'w ddwyn allan o fis i fis, yn fawr—prinder ymron ymhob cyfeiriad, ond ni ddylasai prinder fod yn y cyfeiriad hwn. Ein gobaith a'n penderfyniad yw ei wneud yn fwy o allu ac o ddylanwad nac erioed yn ein plith.

SARNICOL.—Da gennym allu dweyd y bydd ysgrifau gan y cyfaill athrylithgar hwn yn ymddangos o fis i fis ar dudalennau YR YMOFYNYDD yn ystod y flwyddyn hon.

DYCHWELYD O FFRAINC.—Mae y Parch. D. Cellan Evans, Rhydygwin a Chiliau wedi dychwelyd o honno o Ffrainc, lle y bu yn gwasanaethu gyda'r Y.M.C.A. am rhyw bedwar mis. Rhoddwyd croesaw gwresog iddo yn ol i blith ei bobl, mewn cyfarfod cyhoeddus gynhaliwyd yn y Felinfach.

PANTYDEFAID.—Cynhaliwyd cyfarfod gwresog a brwdfrydig yn Neuadd Pantydefaid i groesawu Preifat Jonathan Parry, unig fab Mr. a Mrs. Thomas Parry, Pontshan, yr hwn oedd am dro yn hen ardal ei faboed, ar ol gwasanaethu gyda'r Fyddin yn Ffrainc. Daeth cynhulliad lluosog ynghyd o edmygwyr ac ewyllyswyr da, a chyflwynwyd iddo anrheg o £12 10s., fel arwydd o'u dymuniadau da a'u parch iddo ef a'i rieni. Cadeiriwyd mewn modd deheuig gan Mr. James Evans, Gyfeile, gan yr hwn y cafwyd annerchiad pwrpasol. Cymerwyd rhan yn y cwrdd gan gerddorion, adroddwyr ac areithwyr yr ardal. Baich eu arodion ydoedd, dymuniadau da a llwydd i'r gwr ieuanc yn nhir Fflandyrs, lle mae eto wedi dychwelyd; ac ar iddo gael dyfod yn ol yn ddianaf,

Pan y paid y cledd a'i gyffro,
Pan y paid y rhyfel-gri.

BWLCHYFADFA.—Tua diwedd Tachwedd diweddaf, cynhaliwyd dau gyfarfod cyhoeddus yn yr ardal i groesawu dau o'n milwyr adref ar ol gwasanaeth maith yn Ffrainc, sef Sergt. John Jones a Private David Jones, meibion John ac Elizabeth Jones, Troedybryn, ger Bwlchyfadfa. Digwyddiad hapus iawn ydoedd i'r ddau gael ychydig seibiant gyda'u gilydd yn yr hen ardal ac ar yr hen aelwyd, a da oedd gan bawb eu gweled. Gwnawd casgliadau sylweddol yn y ddau gyfarfod fel dangoseg o'n teimladau tuag attynt. Mae y ddau, erbyn hyn, wedi dychwelyd i Ffrainc.

YR IDDEWON.—Fel cenhedloedd eraill, mae'r Iddewon hwythau yn bwrw golwg ym mlaen yn disgwyl ac yn gobeithio am ryw gyfnewidiad mawr ar ol y rhyfel. Fe allai y dylem ychwanegu—rai o honynt, gan eu bod yn anghytuno ar y pwnc o genhedlaetholdeb; a chan eu bod yn anghytuno ar y pwnc hwnnw, nid ydynt yn unfarn ar bwnc Seioniaeth a dyfodol Canaan. Deil un dosparth mae crefydd yw Iddewaeth, cyfundrefn o fywyd ac o feddwl, a dim arall; ac yn debyg i Gatholiciaeth neu Fohametaniaeth, nad oes dim ynddi yn rhwystrol i Iddew fod yn Sais, yn Gymro, yn Ffrancwr, neu Americaniad. . . . O'r tu arall, mae yna ddosparth lluosog eu rhif a'u dealltwriaeth sydd yn dal fod Iddewaeth, nid yn unig yn grefydd, ond hefyd yn genedl wedi colli ei mamwlad, ac yn awr yn crwydro ar wyneb pob parth o'r byd. Edrych y rhai hyn ym mlaen at yr adeg y cant ddychwelyd i Seion; a'u gobaith cryf yw y canlynir y rhyfel presennol gan adferiad rhannol o leiaf o'u cenedl i etifeddiad o'r wlad yr amddifadwyd hwy o honi yn agos i ddwy fil o flynyddau'n ol.

DAETH "Ceninen" Hydref i law yn amserol, a dymunem alw sylw arbennig atti y tro hwn. Y mae, fel arfer, yn llawn o bethau ardderchog, ac ni chaniatta gofod i ni fanylu arnynt. Carem gymhell ein darllenwyr i gynnorthwyo y cyhoeddiad cenedlaethol hwn yn yr argyfwng presennol. Gwyddom ein hunain ei bod yn anhawdd cadw uwch y don ar hyn o bryd. Colled fawr fuasai colli y lleiaf o'r cofnodolion Cymreig, ond yn neilldiol felly "Y Geninen." Felly rhodder pob cefnogaeth posibl iddi, yn ddiau bydd pawb ar ei fantais o wneud hynny.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.
Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1916.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz. :—			
£2 10s. od. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„ Reserve Fund	4,000,000	0	0
„ Dividend payable on 1st February, 1917	322,703	9	11
„ Balance of Profit and Loss Account	243,538	5	10
	9,347,034	5	9
Current, Deposit and other Accounts	174,620,724	17	9
„ Acceptances on account of Customers	7,220,780	12	2
	£191,188,539	15	8

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	47,973,686	4	4
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,844,377	19	10
„ Investments :—			
War Loans, at cost (of which £1,490,000 is lodged for Public and other Accounts)	33,399,534	13	6
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	326,406	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, Corporation Stocks	1,924,813	0	4
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	751,520	12	11
Sundry Investments	788,021	0	10
„ Bills of Exchange	23,336,817	0	9
	117,345,177	2	6
„ Advances on Current Accounts, &c....	63,868,856	17	4
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	7,220,780	12	2
„ Bank Premises, at Head Office and Branches	2,753,725	3	8
	£191,188,539	15	8